# CYNGOR SIR Y FFLINT
# 30 IONAWR 2018

Cofnodion cyfarfod Cyngor Sir y Fflint a gynhaliwyd yn Siambr y Cyngor, Neuadd y Sir, yr Wyddgrug ddydd Mawrth, 30 Ionawr 2018.

**YN BRESENNOL: Y Cynghorydd Brian Lloyd (Cadeirydd)**
Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge, Janet Axworthy, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby, Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Mike Peers, Michelle Perfects, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley.

**YMDDIHEURIADAU:**
Cynghorwyr: Bob Connah, David Cox, Chris Dolphin, Rosetta Dolphin, Andrew Holgate, Dave Hughes, Joe Johnson, Billy Mullin a Ted Palmer.

**YN Y CYFARFOD:**
Prif Weithredwr, Prif Swyddog (Llywodraethu), Prif Swyddog (Newid Sefydliadol), Prif Swyddog (Cynllunio a’r Amgylchedd), Prif Swyddog (Strudlun a Thrafnidiaeth), Prif Swyddog Dros Dro (Addysg ac Ieuenctid), Prif Swyddog (Gwasanaethau Cymdeithasol), Rheolwr Cyllid Corfforaethol, Rheolwr Gwasanaethau Democrataidd, Rheolwr Budd-daliadau, Rheolwyr Cyllid ac Arweinydd Tîm – Gwasanaethau Pwyllgorau.

Cyn dechrau’r cyfarfod fe esboniodd y Prif Weithredwr (Llywodraethu), oherwydd problemau technegol, na fyddai’r gweddarllediad o’r cyfarfod yn cael ei ddangos yn fyw. Fodd bynnag, byddai recordiad o’r cyfarfod ar gael ar wefan y Cyngor maes o law.

## 80. COFNODION

Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 12fed Rhagfyr a chawsant eu cadarnhau fel cofnod cywir.

**PENDERFYNIAD:**

Y byddai’r cofnodion yn cael eu cymeradwyo a’u llofnodi gan y Cadeirydd fel cofnod cywir.

## 81. DATGAN CYSYLLTIAD

Yn dilyn cyngor gan y Prif Weithredwr (Llywodraethu), datganodd y Cynghorwyr Allport a Woolley gysylltiad personol ac sy’n rhagfarnus yn eitem 8 ar yr agenda, Rhybudd o Gynnig. Datganodd y Cynghorwyr Carver, Gay, Paul

Johnson, Tudor Jones, McGuill a Carolyn Thomas gysylltiad personol yn yr un eitem.

## 82. CYHOEDDIADAU'R CADEIRYDD

Dosbarthwyd copi o Gyfathrebu'r Cadeirydd i'r Aelodau cyn y cyfarfod.

Soniodd y Cadeirydd yn benodol ar fusnesau yn Sir y Fflint a oedd wedi derbyn cydnabyddiaeth yn ystod Wythnos Fusnes Sir y Fflint. Talodd deyrnged i'r diweddar Stephen Hampson, mab y diweddar Gynghorydd Ron Hampson a'i wraig Rita, a oedd wedi cyffwrdd â bywydau llawer o bobl.

## 83. DEISEBAU

Cyflwynodd y Cynghorydd McGuill ddeiseb ar-lein a oedd wedi'i llofnodi gan 10,532 o bobl yn gofyn i'r swm ychwanegol o 20% o Ardrethi Annomestig gael eu hail-gyflwyno ar gyfer Grwpiau Sgowtiaid. Derbyniwyd 358 o lofnodion pellach drwy ddeiseb bapur a llythyr yn cefnogi'r ddeiseb gan Bear Grylls, Prif Sgowt y Deyrnas Gyfunol.

## 84. CWESTIYNAU GAN Y CYHOEDD

Ni dderbyniwyd unrhyw rai.

## 85. CWESTIYNAU

Fe esboniodd y Prif Weithredwr (Llywodraethu) bod dau gwestiwn wedi'u derbyn ac wedi'u copïo, ynghyd â'r ymateb, a'u dosbarthu.

Cynghorydd Clive Carver:

"Mewn cysylltiad â phenderfyniad Cyngor Sir y Fflint i ddiddymu Ardrethi Busnes Dewisol ar gyfer Elusennau Cofrestredig a grwpiau gwirfoddol, a all yr Aelod Cabinet esbonio (a) faint o Elusennau Cofrestredig a grwpiau gwirfoddol sydd wedi gwneud cais am ryddhad ardrethi caledi? A (b) faint o geisiadau o'r fath sydd wedi'u cymeradwyo?".

Ateb:

"Ers Ebrill 2017 derbyniwyd cyfanswm o 6 o geisiadau Caledi gan Elusennau Cofrestredig neu Grwpiau Gwirfoddol ac mae 1 sefydliad wedi derbyn Rhyddhad Caledi - a oedd gyfwerth â'u hatebolrwydd llawn ar gyfer 2017-18.

Rydym bob amser yn hyrwyddo'r cynllun Rhyddhad Ardrethi Caledi pan fydd risgiau ariannol i unrhyw sefydliad Elusennol neu Wirfoddol neu, yn wir, unrhyw fusnes masnachol, drwy dalu ardrethi busnes.

Mae'n bwysig datgan bod yn rhaid edrych ar bob cais am y Rhyddhad Ardrethi Caledi ar eu rhinweddau eu hunain a phan na fydd gan sefydliadau gyllid digonol i dalu'r atebolrwydd o 20%, y byddwn yn gweithredu er budd y cyhoedd ehangach drwy ddyfarnu Rhyddhad Caledi. Hyd yma, yn seiliedig ar dystiolaeth

ysgrifenedig a gyflwynwyd gan sefydliadau amrywiol, ychydig iawn o achosion sydd wedi'u profi a fyddai'n cyflawni'r prawf caledi.

Mae'r cynllun Caledi yn parhau i fod ar agor, ac rydym yn annog sefydliadau i siarad â'r gwasanaeth Ardrethi Busnes os ydynt am wneud cais am y tro cyntaf (neu ail-gyflwyno cais, hyd yn oed os bu'r cais blaenorol yn aflwyddiannus)."

Manteisiodd y Cynghorydd Carver ar y cyfle i holi cwestiwn ategol:

"Allwch chi ddarparu dadansoddiad o'r ffigurau o'r chwe chais caledi, gan gynnwys yr un a dderbyniodd ryddhad caledi?" Dywedodd y Cynghorydd Aaron Shotton y byddai'n bosibl cael gafael ar y wybodaeth ac y byddai'n cael ei hanfon at y Cynghorydd Carver.

Cynghorydd Arnold Woolley:

"A yw'r awdurdod yn ymwybodol o'r nifer o dai yn y Sir, sydd wedi bod yn wag/heb eu defnyddio'n barhaus am o leiaf chwe mis a faint o'r tai o'r fath y mae'r awdurdod wedi delio â hwy gan ddefnyddio'r pwerau presennol sydd ar gael, er mwyn dechrau gwneud defnydd pwrpasol ohonynt unwaith eto."

Ateb:

Mae yna 800 o gartrefi sydd wedi bod yn wag yn yr hirdymor yn y Sir.

Mae gan y Cyngor nifer o strategaethau ar waith i ddechrau ail-ddefnyddio cartrefi sydd wedi bod yn wag am gyfnod hir. Un o'r ffyrdd mwyaf effeithiol o ddechrau ail-ddefnyddio'r eiddo hyn yw defnyddio'r system Drethiant Leol i gymell perchenogion i ganolbwyntio ar gael pobl yn byw yn eu heiddo unwaith eto.

Cymeradwyodd y Cyngor llawn argymhelliad y cabinet i gyflwyno cynllun Premiwm y Dreth Gyngor ym mis Ebrill 2017, sydd bellach yn gosod tâl 50% ychwanegol ar berchnogion eiddo gwag hirdymor, yn ogystal ag ar ail gartrefi.

Tua'r adeg y cyflwynwyd y cynllun Premiwm y Dreth Gyngor, gofynnwyd i swyddogion ysgrifennu at berchnogion pob eiddo gwag hirdymor er mwyn hybu mynediad at wasanaethau eraill y Cyngor, a allai helpu i wneud defnydd o'r newydd o eiddo gwag hirdymor.

Ers cyflwyno'r cynllun hwn, dengys ein cofnodion bod 212 o eiddo gwag hirdymor, 45 o ail gartrefi wedi dechrau cael eu hail-ddefnyddio unwaith eto a chafodd y cynllun hwn ei gynllunio i annog perchenogion i ddechrau gwneud defnydd llawn o'r eiddo hyn unwaith eto er mwyn:

- mynd i'r afael ag anghenion tai lleol
- cefnogi'r cynnydd yn nifer y tai fforddiadwy i'w prynu neu eu prydlesu
- gwella ymddangosiad cymunedau lleol.

Mae'r Cyngor hwn yn un o lond llaw o gynghorau yng Nghymru sydd wedi cyflwyno'r cynllun Premiwm y Dreth Gyngor o fis Ebrill 2017, gyda'r amcan

pennaf o ddechrau ail-ddefnyddio eiddo gwag. Er ein bod yn gwneud yr hyn y gallwn i ail-ddefnyddio eiddo, dylai perchnogion a landlordiaid eiddo gwag hefyd rannu yn y cyfrifoldeb o ddechrau ail-ddefnyddio eu heiddo a gwneud y defnydd gorau o'u hasedau.

Y Cyngor yw'r awdurdod lleol cyntaf yng Nghymru i sefydlu ei gwmni tai ei hun, North East Wales (NEW) Homes, sy'n gallu cynnig gwasanaeth rheoli cystadleuol iawn i gynorthwyo landlordiaid.

Mae'r Cyngor wedi defnyddio dyraniad cyfalaf bychan ers nifer o flynyddoedd, i gynorthwyo perchnogion i ddechrau ail-ddefnyddio cartrefi gwag, fel y dangosir isod. Mae'r dyraniad hwn wedi lleihau dros amser, yn rhannol oherwydd cyfyngiadau cyfalaf ac yn rhannol oherwydd argaeledd cyllid amgen Llywodraeth Cymru (isod).

| Blwyddyn | Grantiau Cyngor Sir y Fflint | Benthyciadau Cyngor Sir y Fflint |
|---|---|---|
| 2013/14 | £164,000 | £30,000 |
| 2014/15 | £105,000 | £39,000 |
| 2015/16 | £79,000 | £4,000 |
| 2016/17 | £62,000 | £0 |
| 2017/18 | £7,000 | £10,000 |

Mae'r Cyngor wedi, hyd at eleni, cyflogi Swyddog Datblygu Cartrefi Gwag hefyd. Mae'r swyddogaeth hon yn gymysgedd o ddyletswyddau Swyddog Iechyd yr Amgylchedd yn ogystal â gwaith i hyrwyddo a gweinyddu'r grant a'r cyllid benthyciadau. Y bwriad yn y dyfodol yw a) pasio gwaith y Swyddog Cartrefi Gwag i'r tîm Iechyd yr Amgylchedd i ddelio â hwy i'r graddau y bydd eu hadnoddau yn caniatáu a b) defnyddio'r tîm Adfywio Tai i reoli'r rhaglenni benthyciadau.

Mae'r Cyngor yn rheoli'r rhaglen Houses 2 Homes ar ran Llywodraeth Cymru, sy'n darparu arian ad-daladwy i ddechrau ail-ddefnyddio eiddo gwag. Mae'r rhan fwyaf o'r cyllid hwn yn cael ei ymrwymo fel benthyciadau ar hyn o bryd, gyda £595,815 wedi'i ddyrannu i 25 benthyciad ar hyn o bryd. Wrth i fenthyciadau gael eu had-dalu, bydd yr arian hwn yn cael ei ailgylchu yn fenthyciadau newydd.

Disgwylir i Lywodraeth Cymru gynyddu hyblygrwydd eu rhaglenni cyllid ad-daladwy cyn hir, a fydd yn caniatáu i'r Cyngor gynyddu'r nifer o fenthyciadau Houses 2 Homes. Disgwylir hefyd i Lywodraeth Cymru ariannu amser swyddog i gefnogi'r rhaglen benthyciadau, a fydd yn ei galluogi i gyrraedd mwy o ymgeiswyr.

Yn ystod 2018/19, mae'r Cyngor yn bwriadu gweithio gyda Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig i gaffael cartrefi gwag ar gyfer rhent cymdeithasol. Bydd y Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig yn ariannu'r costau prynu ac adnewyddu yn rhannol a bydd y Cyngor yn dyrannu Grant Tai Cymdeithasol fel arian cyfatebol. Mae gwaith targedu yn cael ei wneud yn awr i gyfateb anghenion tai gyda'r stoc o dai gwag.

Diolchodd y Cynghorydd Woolley i'r Aelod Cabinet am yr ymateb manwl ac ni ofynnodd gwestiwn ategol.

**86. RHYBUDD O GYNNIG**

Ar ôl datgan cysylltiad yn gynharach, gadawodd y Cynghorwyr Allport a Woolley yr ystafell.

Derbyniwyd un Hysbysiad o Gynnig:

Cynghorydd Hilary McGuill:

"Galwn ar Gyngor Sir y Fflint i ail-gyflwyno'r rhyddhad ardrethi busnes 100% ar gytiau sgowtiaid ar gyfer sefydliadau sgowtiaid yn Sir y Fflint sy'n berchen ar ac sy'n rheoli eu pencadlys sgowtiaid".

Wrth siarad am ei Hysbysiad o Gynnig, dywedodd y Cynghorydd McGuill ei bod yn teimlo'n sicr nad oedd y Cyngor, wrth gymeradwyo'r cynnig i ddileu'r ychwanegiad o 20% o Ryddhad Ardrethi Dewisol i sefydliadau gwirfoddol ddwy flynedd yn flaenorol, yn sylweddoli y byddai hyn yn effeithio ar grwpiau sgowtiaid. Dywedodd, wrth gymharu, nad oedd rhai busnesau bach yn talu unrhyw ardrethi oherwydd eu gwerth ardrethol, gan ychwanegu nad oedd y sgowtiaid yn fusnes. Credai y dylai Llywodraeth Cymru ddarparu 100% o ryddhad ardrethi i grwpiau sgowtiaid yn yr un modd ag y gwneir i addoldai. Darparwyd manylion o'r effaith ariannol y byddai hyn yn ei chael ar grwpiau ac er bod hyn yn sylweddol i'r grwpiau unigol, nid oedd yn bwysau arwyddocaol ar gyllideb y Cyngor.

Cafodd yr Hysbysiad o Gynnig ei eilio gan y Cynghorydd Tudor Jones.

Gofynnodd y Cynghorydd McGuill am bleidlais wedi'i chofnodi.

Rhoddodd y Cynghorydd Aaron Shotton hysbysiad o ddiwygiad a ddosbarthwyd i'r Aelodau, sef:

"Galwn ar Gyngor Sir y Fflint i ail-gyflwyno'r rhyddhad ardrethi busnes 100% ar yr holl sefydliadau cymunedol lleol sydd ag eiddo o dan y gwerth ardrethol o £6,000. Dyma yw'r trothwy a bennwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn i fusnesau bach fod yn gymwys am y rhyddhad ardrethi busnes llawn".

Wrth drafod ei ddiwygiad, dywedodd y Cynghorydd Shotton bod y penderfyniad a gymerwyd gan y Cyngor i ddiddymu'r rhyddhad ardrethi dewisol o %20 wedi'i gefnogi ar draws y siambr. Fodd bynnag, roedd yn cytuno â'r Cynghorydd McGuill y dylai cynlluniau cenedlaethol gael eu hariannu'n gyfan gwbl gan Lywodraeth Cymru. Er mwyn mynd i'r afael â'r mater hwn, cynigiodd y diwygiad a dywedodd bod anghysondeb mewn cysylltiad â grwpiau gwirfoddol sydd â gwerth ardrethol o dan £6,000 am nad ydynt yn gwneud elw ac ni ddylent dalu'r 20% ychwanegol. Roedd hyn yn gyfle i'r Cyngor ail-ddatgan eu penderfyniad. Wrth ddarllen ei ddiwygiad, dywedodd bod hyn yn darparu ymrwymiad i fynd i'r afael â'r Hysbysiad o Gynnig gwreiddiol a hefyd i helpu grwpiau cymunedol eraill yn y sir. Awgrymodd y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ar 20fed Chwefror 2018 gyda manylion cynllun ymarferol.

Gofynnodd y Prif Weithredwr (Llywodraethu) a oedd y Cynghorydd McGuill yn derbyn y diwygiad i'r Hysbysiad o Gynnig. Mynegodd bryder nad oedd y diwygiad o bosibl yn cwmpasu pob grŵp sgowtiaid oherwydd gallai rhai ohonynt fod â gwerth ardrethol o fwy na £6,000. Dywedodd y Rheolwr Refeniw ei fod yn credu y byddai'r rhan fwyaf, os nad pob un, o'r 13 grŵp sgowtiaid yn gymwys ar gyfer y swm ychwanegol. Yna gofynnodd y Cynghorwyr McGuill a Richard Jones a fyddai'n bosibl ailddatgan y 20% ar unwaith i'r rhai a fyddai'n gymwys o dan y diwygiad. Yn dilyn trafodaeth, gofynnodd y Cynghorydd McGuill am ohiriad o 10 munud er mwyn ceisio cyngor cyfreithiol ar ailddatgan Rhyddhad Ardrethi Dewisol yn ôl-weithredol i ddechrau 2017/18 a hefyd manylion cyfanswm y grwpiau a fyddai'n cael eu heffeithio.

Gohiriad – 2.53 p.m – 3.03 p.m.

Esboniodd y Prif Weithredwr nad oedd y canllaw yn glir o ran a oedd yn bosibl adfer y 20% yn ôl-weithredol ai peidio. O'r nifer o grwpiau sydd wedi'u heffeithio, byddai'r manylion yn cael eu darparu yn y cyfarfod ym mis Chwefror.

Ar y sail honno, derbyniodd y Cynghorydd McGuill y diwygiad a gyflwynwyd gan y Cynghorydd Aaron Shotton ac fel yr eilydd, derbyniodd y Cynghorydd Tudor Jones y diwygiad hefyd.

Byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r cyfarfod ar 20fed Chwefror gyda manylion yr opsiynau i adfer y Rhyddhad Ardrethi Dewisol. Byddant yn cysylltu hefyd gyda Llywodraeth Cymru o ran y diffyg cydraddoldeb yn y cynllun.

Cynigiodd y Cynghorydd Attridge gynnig terfynol oherwydd credai bod y mater wedi'i drafod yn ddigonol, a chefnogwyd hynny gan y Cadeirydd.

Drwy ofyn am bleidlais wedi'i chofnodi yn gynharach, roedd y 10 Aelod angenrheidiol yn gefnogol o hyn. Pleidleisiodd y Cynghorwyr canlynol am yr Hysbysiad o Gynnig:

Bernie Attridge, Glyn Banks, Haydn Bateman, Marion Bateman, Sean Bibby Chris Bithell, Sian Braun, Helen Brown, Derek Butler, Clive Carver, Geoff Collett, Paul Cunningham, Jean Davies, Rob Davies, Ron Davies, Adele Davies-Cooke, Ian Dunbar, Andy Dunbobbin, Mared Eastwood, Carol Ellis, David Evans, Veronica Gay, George Hardcastle, David Healey, Gladys Healey, Patrick Heesom, Cindy Hinds, Kevin Hughes, Ray Hughes, Dennis Hutchinson, Paul Johnson, Rita Johnson, Christine Jones, Richard Jones, Tudor Jones, Colin Legg, Brian Lloyd, Richard Lloyd, Mike Lowe, Dave Mackie, Hilary McGuill, Mike Peers, Michelle Perfect, Vicky Perfect, Neville Phillips, Mike Reece, Ian Roberts, Tony Sharps, Aaron Shotton, Paul Shotton, Ralph Small, Ian Smith, Carolyn Thomas, Owen Thomas, Martin White, Andy Williams, David Williams, David Wisinger ac Arnold Woolley.

Fe ymatalodd y Cynghorydd Janet Axworthy ei phleidlais yn erbyn yr Hysbysiad o Gynnig. Ni phleidleisiodd unrhyw Gynghorwyr yn erbyn hyn.

Esboniodd y Cynghorydd Carver bod y penderfyniad gwreiddiol i gael gwared ar y Rhyddhad Ardrethi Dewisol yn benderfyniad a wnaed gan y Cabinet ac nid y Cyngor Sir.

**PENDERFYNIAD:**

(a) Y dylid cefnogi'r Hysbysiad o Gynnig diwygiedig fel a ganlyn:
"Galwn ar Gyngor Sir y Fflint i ail-gyflwyno'r rhyddhad ardrethi busnes 100% ar yr holl sefydliadau cymunedol lleol sydd ag eiddo o dan y gwerth ardrethol o £6,000. Dyma yw'r trothwy a bennwyd gan Lywodraeth Cymru er mwyn i fusnesau bach fod yn gymwys am y rhyddhad ardrethi busnes llawn" ac

(b) Y byddai adroddiad yn cael ei gyflwyno i'r Cyngor Sir ar 20fed Chwefror gyda manylion yr opsiynau i adfer y Rhyddhad Ardrethi Dewisol. Byddant hefyd yn cysylltu â Llywodraeth Cymru ynglŷn â'r diffyg cydraddoldeb yn y cynllun.

## 87. CAMAU UN A DAU O GYLLIDEB CRONFA'R CYNGOR 2018/19 A CHYNLLUNIO AR GYFER CAU CAM TRI

Cyflwynodd y Prif Weithredwr Gamau Un a Dau Cyllideb Cronfa'r Cyngor 2018/19 a'r adroddiad Cynllunio ar gyfer Diwedd Cam Tri. Wedi'i ategu i'r adroddiad oedd opsiynau effeithlonrwydd Cam Un, opsiynau effeithlonrwydd Cam Dau wedi'u cadarnhau, crynodeb o'r asesiad o'r effaith a phwysau ac effeithlonrwydd costau newydd. Dosbarthwyd fersiwn diwygiedig o atodiad 3, crynodeb o'r asesiad o'r effaith.

Darparwyd diweddariad o gynigion cyllideb Cam Un a oedd yn cynnwys y taliadau gwastraff ac integreiddio'r Gwasanaeth Cerddoriaeth a'r Tîm Datblygu'r Celfyddydau gyda Theatr Clwyd. Yr eitemau a oedd yn weddill i'w datrys o gynigion cyllideb Cam Dau oedd cyllid ysgolion, taliadau meysydd parcio cyhoeddus a'r cynnydd yn y Dreth Gyngor. Wrth drafod un arbediad posibl o gyllideb GwE o 3%, fe esboniodd mai'r canlyniad gorau ar y cyd a negodwyd oedd gostyngiad o 1% mewn cyfraniadau. Fodd bynnag, gyda'r pwysau chwyddiant, nid oedd y gostyngiad o 1% yn arbed unrhyw gyllid i'r Cyngor mewn termau real. Roedd y gyllideb tymor hwy ar gyfer GwE yn destun adolygiad yn awr cyn 2019/20.

Darparwyd manylion hefyd ar dri chais am gefnogaeth a gyflwynwyd i Lywodraeth Cymru ar yr uchafswm tâl ar gyfer costau gofal cartref, parhad gwarantedig cyllid y Gronfa Gofal Canolraddol a chadw cyfran o'r cyfraniadau Ardoll Treth Prentisiaid.

Rhoddodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol grynodeb o effaith canlyniadau hysbys Camau Un a Dau a oedd wedi arwain at fwlch gweddilliol o £5.9 miliwn.

O ran y Dreth Gyngor, esboniodd y Prif Weithredwr bod yr opsiynau wedi'u rhannu gyda'r Aelodau, a'u bod yn amrywio o gynnydd o rhwng 3% a 5%. Roedd y Setliad Terfynol gan Lywodraeth Cymru wedi pennu'r Asesiad Gwariant Safonol o £264.333 miliwn ar gyfer Sir y Fflint; Byddai ariannu Sir y Fflint ar yr Asesiad Gwariant Safonol ac i wneud y mwyaf o'i incwm trethiant lleol yn erbyn y targed

tybiannol hwnnw yn galw am gynnydd o 6.71% i'r Dreth Gyngor. Roedd Llywodraeth Cymru wedi cadarnhau bod gan gynghorau yr hyblygrwydd i fynd y tu hwnt i'r 'cap' blynyddol blaenorol o gynnydd 5% pe byddai ganddynt ddadl leol gref.

Cronfeydd defnyddiol cyfyngedig sydd gan y Cyngor a nifer o gronfeydd wrth gefn wedi'u clustnodi a oedd yn cynnwys rhai balansau gwasanaeth a oedd wedi'u cario ymlaen i dalu am wariant penodol mewn blwyddyn, a rhai cronfeydd wrth gefn gyda thelerau ac amodau cysylltiedig a oedd yn cyfyngu eu defnydd. Roedd gwaith yn mynd rhagddo i adolygu'r holl gronfeydd wrth gefn sydd wedi'u clustnodi ac i herio'r rhai nad oeddent wedi'u defnyddio o fewn yr amserlen a nodwyd yn wreiddiol. Byddai angen ad-dalu unrhyw ddefnydd o gronfeydd wrth gefn i falansio cyllideb 2018/19 mewn blwyddyn ddiweddarach.

Esboniodd y Prif Weithredwr un o'r risgiau sy'n wynebu'r Cyngor, sef y dyfarniad cyflog cenedlaethol; roedd y Cyngor wedi cyllidebu ar gyfer dyfarniad cyflog blynyddol o 1% yn ei ragolygon ond roedd Undebau Llafur yn galw am ddyfarniadau uwch. Roedd Llywodraeth Cymru wedi pwysleisio nad oedd unrhyw arian ar gael i gyflawni dyfarniadau cyflog cenedlaethol uwch na'r rhagolygon ac roedd yn disgwyl i Lywodraeth y DU ddarparu cyllid ychwanegol i dalu am unrhyw wahaniaeth yn y costau.

Mynegodd y Cynghorydd Aaron Shotton ei bryder oherwydd y wybodaeth gyfyngedig a oedd ar gael am grantiau penodol gan Lywodraeth Cymru gyda gostyngiadau a newidiadau arfaethedig a oedd yn cyflwyno risg sylweddol. Yn benodol, cyfeiriodd at y Grant Gwella Addysg a'r Grant Amgylcheddol Unigol, a oedd yn peri pryder penodol. Dywedodd na fyddai'r bwlch a oedd yn weddill o £5.9 miliwn yn ffigur gwirioneddol am nad oedd yn ystyried y pwysau ar grantiau a phan oedd y grantiau hynny'n ategu cyflenwad gwasanaeth. Roedd y £5.9 miliwn yn tybio setliad ariannol safonol ar gyfer ysgolion a chynnydd mewn taliadau meysydd parcio, fodd bynnag, nid oeddent wedi cytuno ar hyn eto. Yr unig opsiynau a oedd ar gael i'r Cyngor oedd cynyddu'r Dreth Gyngor a defnyddio cronfeydd wrth gefn. Soniodd am y fformwla ariannol a oedd yn tybio bod gan y Cyngor fwy o gyfleoedd i gael incwm o'r Dreth Gyngor, fodd bynnag byddai angen i'r cynnydd i gyflawni'r Asesiad Gwariant Safonol fod yn 6.71% ond ni fyddai hynny'n cau'r bwlch o hyd.

Roedd dogfen wedi'i dosbarthu gan benaethiaid ysgolion cynradd yn y Sir yn gofyn i'r Cynghorwyr ystyried y canlynol:

- defnyddio cronfeydd wrth gefn i ariannu cyllideb 'arian parod safonol gwirioneddol';
- arbedion effeithlonrwydd o feysydd eraill; a
- pennu cyllideb diffyg ar gyfer 2018/19 er mwyn codi'r mater ac amlygu bod statws Sir y Fflint fel un o'r awdurdodau sy'n cael eu hariannu waethaf yng Nghymru ac felly yn y DU yn parhau.

Dywedodd bod sefydlu cyllideb diffyg yn anghyfreithlon ond roedd angen cyfleu'r neges, gan ychwanegu nad oedd Llywodraeth Cymru yn ymwybodol o ddatganiad o'r fath o'r blaen.

Yn dilyn y ddogfen a oedd wedi'i dosbarthu, fe gynigiodd argymhelliad ychwanegol i gydnabod bod y Cyngor yn poeni am bob un o'i wasanaethau a'i gymunedau a'i fod yn Gyngor o egwyddorion a chredoau. Roedd yr argymhelliad ychwanegol fel a ganlyn, a chafodd ei eilio gan y Cynghorydd Attridge:

"Y dylid cyfleu'r pryderon i Weinidog y Cabinet i ymateb ar unwaith a chynorthwyo Cyngor a oedd yn sefyll i fyny i gyni er mwyn cefnogi gwasanaethau lleol, ac ysgolion yn arbennig. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth pellach i'r Cyngor hwn".

Ychwanegodd hefyd bod angen ymateb ar dri chais yr oedd y Prif Weithredwr wedi son amdanynt. Ychwanegodd y Prif Weithredwr, yn ogystal â'r tri chais hyn, gofynnwyd i Lywodraeth Cymru hefyd am gyllid cyffredinol ategol ar gyfer ysgolion a gofal cymdeithasol yn benodol.

Mynegodd y Cynghorydd Sharps bryder am y sefyllfa ariannol ar gyfer ysgolion a gofal cymdeithasol, methiant y Cyngor i gyrraedd yr Asesiad Gwariant Safonol a'r cynnydd posibl o 5% neu fwy i'r Dreth Gyngor. Dywedodd y byddai'r flwyddyn ganlynol hyd yn oed yn fwy anodd. Esboniodd y Prif Weithredwr y byddai'r adroddiad a gyflwynir i'r Cyngor Sir ar 20fed Chwefror yn rhoi amlinelliad o'r holl opsiynau ar gyfer cynnydd o 3% ac uwch i'r Dreth Gyngor.

Soniodd y Cynghorydd Peers am yr opsiynau cyfyngedig a oedd ar gael i dalu'r diffyg, gan ychwanegu na allai gefnogi'r Cyngor pe byddai'n pennu cyllideb diffyg yn unol â chais y penaethiaid, fodd bynnag, mae angen cefnogi addysg fel y brif flaenoriaeth. O ran yr incwm y rhagwelir fyddai'n cael ei gynhyrchu o gasgliadau gwastraff gardd, roedd yn credu bod hyn yn risg oherwydd nad oedd yn bosibl gwarantu faint o bobl fyddai'n manteisio ar hyn. Soniodd am nifer o swyddi gwag yn y Cyngor a'r nifer o swyddi a oedd yn cael eu hysbysebu a gofynnodd a fyddai'n bosibl atal recriwtio a hefyd holodd am y posibilrwydd o uno rhai o'r swyddi Prif Weithredwyr. Dywedodd y Prif Weithredwr bod yr incwm o gasgliadau gwastraff gardd wedi'i gyfrifo'n a'i ragweld yn ofalus, yn seiliedig ar nifer y bobl a oedd wedi manteisio ar hyn mewn awdurdodau lleol eraill. O ran staffio, dywedodd mai Sir y Fflint sydd â'r strwythur rheoli lleiaf yng Nghymru ac y byddent yn edrych ar y strwythur eto o ystyried oherwydd bod un o'i Brif Weithredwyr yn gadael. O ran gohirio recriwtio, roedd proses o ragdybiaethau eisoes wedi'i chynnwys yn y weithdrefn recriwtio ar gyfer pob swydd, a phan fyddai swydd wag yn codi, byddai'r ddadl dros lenwi'r swydd wag honno ai peidio yn cael ei herio'n drylwyr.

Dywedodd y Cynghorydd Richard Jones ei fod yn gobeithio derbyn dogfen ysgrifenedig ar y canlyniadau a'r gwerthusiad ohonynt. Soniodd am y cronfeydd wrth gefn a oedd wedi'u clustnodi, ac nad oedd yn credu eu bod yn gronfeydd wrth gefn ond yn hytrach yn falansau gwasanaeth a oedd wedi'u rhoi i'r neilltu yn y flwyddyn flaenorol ac nad oeddent wedi'u defnyddio ar gyfer eu diben gwreiddiol. Credai ei bod yn bosibl dychwelyd y swm hwn o £2.45 miliwn i'r gyllideb gydag achos busnes yn cael ei ddarparu ar gyfer unrhyw gyllid a oedd ei angen o hyd. Dywedodd y Prif Weithredwr fod rhai pethau yn anhysbys, megis y nifer o breswylwyr a oedd eisiau defnyddio a thalu am y gwasanaeth casglu gwastraff gardd. Maes arall oedd y dyfarniad cyflogau a'r angen i gadw cronfeydd wrth gefn pe na fyddai'r dyfarniad yn cael ei ariannu'n genedlaethol. Nid oedd yn bosibl rhagweld canlyniadau pethau nad ydynt wedi digwydd eto.

Pwysleisiodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod angen bod yn ofalus wrth ddefnyddio cronfeydd wrth gefn, y rhagwelwyd y byddent yn £4.2 miliwn erbyn diwedd Mawrth, ond y gallai hyn newid, a dywedodd bod angen ystyried fforddiadwyedd a chynaliadwyedd. Roedd angen diogelu cronfeydd wrth gefn heb eu clustnodi, gymaint â phosibl, a soniodd hefyd am risg sylweddol y dyfarniad cyflogau.

Dywedodd y Prif Weithredwr bod y sefyllfa yn un ddifrifol a'i fod yn gweld sefyllfa lle na fyddai costau chwyddiant ar gyfer ysgolion yn cael eu talu. Yng nghyfarfod y Pwyllgor a Chaffael Newid Sefydliadol y diwrnod canlynol, roeddent wedi trafod asedau ac esboniodd bod Camau 3 a 4 Neuadd y Sir yn wag ac y byddent yn cael eu dymchwel. Roedd yr opsiynau'n cael eu hadolygu ar gyfer gwerthu rhannau o'r safle cyfan er mwyn cynhyrchu derbyniadau cyfalaf.

Mynegodd y Cynghorydd Ellis ei phryder am sefyllfa'r ysgolion a gofal cymdeithasol a dywedodd bod angen archwilio dyfodol Neuadd y Sir gyda derbyniadau cyfalaf yn cael eu rhoi yn y rhaglen gyfalaf. Yr unig beth y gallai ysgolion ei wneud yn awr oedd cysylltu â Llywodraeth Cymru. Esboniodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol bod yn rhaid i unrhyw arian a fyddai'n cael ei gynhyrchu o werthu asedau fynd tuag at y rhaglen gyfalaf ac nid y gyllideb refeniw.

Dywedodd y Cynghorydd Bithell bod yn rhaid pennu cyllideb gyfreithiol. Dywedodd bod angen mynd i'r afael â'r broblem yn llygad y ffynnon, sef Llywodraeth y DU.

Wrth bleidleisio ar hyn, cafodd yr argymhellion, gan gynnwys yr argymhelliad ychwanegol, eu cymeradwyo.

**<u>PENDERFYNIAD</u>:**

(a) Bod angen nodi bod Camau Un a Dau y gyllideb wedi'u cwblhau, ac eithrio opsiynau Cam Dau ar gyfer cyllid ysgolion, taliadau meysydd parcio a lefelau'r Dreth Gyngor, a bod tri chais wedi'u gwneud i Lywodraeth Cymru, sy'n cael eu negodi yn awr;

(b) Nodi a chymeradwyo'r rhagolygon terfynol ar gyfer 2018/19 gan ystyried yr adolygiad o'r pwysau costau yn ystod y flwyddyn a'u heffaith arfaethedig ar y flwyddyn ganlynol;

(c) Nodi'r trefniadau ar gyfer trydydd cham a cham olaf y broses o bennu'r gyllideb;

(d) Bod angen tynnu sylw Gweinidog y Cabinet i'r pryderon er mwyn gallu ymateb ar unwaith a chynorthwyo Cyngor a oedd yn sefyll i fyny yn erbyn cyni er mwyn cefnogi gwasanaethau lleol, ac ysgolion yn benodol. Mae'n rhaid i Lywodraeth Cymru ddarparu cymorth pellach ar gyfer y Cyngor hwn.

## 88. ADOLYGIAD CANOL BLWYDDYN RHEOLI'R TRYSORLYS 2017/18

Cyflwynodd y Rheolwr Cyllid Corfforaethol Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2017/18 i'w gymeradwyo.

Cafodd yr adroddiad hwn ei ystyried yng nghyfarfod y Pwyllgor Archwilio ar 22ain Tachwedd 2017 lle cafodd ei gymeradwyo i'r Cabinet. Derbyniodd y Cabinet yr adroddiad ar 19eg Rhagfyr 2017 a chafodd ei gymeradwyo i'w argymell i'r Cyngor Sir.

Roedd newidiadau rheoleiddiol yn dod i rym yn y dyfodol agos, gyda'r prif newid yn digwydd i'r MiFID II (yr ail Gyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Ariannol) a fyddai'n dod i rym ar 3ydd Ionawr 2018. Mae MiFID II yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gael eu categoreiddio gan wasanaethau ariannol rheoledig fel cleientiaid cadw diofyn a allai "ddewis" bod yn gleientiaid proffesiynol, os byddant yn cyflawni meini prawf penodol.

Roedd y Cyngor wedi'i ddosbarthu fel cleient proffesiynol. Er mwyn "dewis" a pharhau ei statws, mae'n rhaid i'r Cyngor gynnal balans buddsoddi o £10 miliwn o leiaf, a bod gan yr unigolyn a awdurdodwyd i wneud penderfyniadau buddsoddi o leiaf un flwyddyn o brofiad perthnasol. Roedd swyddogion wedi ystyried yr effeithiau gwahanol o barhau i fod yn gleient proffesiynol neu newid i gleient manwerthu, ac argymhellwyd y dylai'r Cyngor gadw ei statws MiFID o gleient proffesiynol er mwyn parhau i reoli gweithgareddau rheoli trysorlys dyddiol y Cyngor, fel ar hyn o bryd.

**PENDERFYNIAD:**

(a) Cymeradwyo Adroddiad Canol Blwyddyn Rheoli'r Trysorlys 2017/18; a

(b) Cymeradwyo'r penderfyniad i 'ddewis' statws cleient proffesiynol gan gwmnïau gwasanaethau ariannol rheoledig o ganlyniad i'r ail Gyfarwyddeb Marchnadoedd mewn Offerynnau Statudol (MiFID II). Bydd hyn yn galluogi'r Cyngor i barhau i reoli ei weithgareddau rheoli trysorlys, fel ar hyn o bryd.

## 89. AELODAU'R WASG A'R CYHOEDD YN Y CYFARFOD

Roedd un aelod o'r wasg a 52 aelod o'r cyhoedd yn bresennol.

(Dechreuodd y cyfarfod am 2.00 pm a daeth i ben am 4.48 pm)

..................................................

**Cadeirydd**